www.breconfestivalballet.com

AMDANO NI

Cwmni newydd yw Brecon Festival Ballet; cwmni nid-er-elw a ffurfiwyd i ddod â chynhyrchiad newydd, cyffrous o'r bale Nutcracker i lwyfan Theatr Brycheiniog ar gyfer y Nadolig 2019. Dyma oedd y tro cyntaf i gynhyrchiad proffesiynol o'r bale eiconig hwn gael ei berfformio yng Nghymru ond hefyd dyma oedd y tro cyntaf erioed i Theatr Brycheiniog gyflwyno bale cyflawn gyda cherddorfa fyw !

Nutcracker, mwy na thebyg, yw'r bale mwyaf adnabyddus a phoblogaidd ohonyn nhw i gyd. Caiff ei berfformio ledled y byd bob Nadolig. Mae'r bale yn gyfuniad gorfoleddus o gerddoriaeth gelfydd Tchaikovsky, gyda'r holl alawon adnabyddus, a stori hudolus. Mae'r naratif yn mynd â ni i barti Nadolig, ar daith trwy dirlun eira ac i wledd yn Nheyrnas Y Melysion. Tylwythen Deg Sugar Plum sy'n rheoli'r deyrnas liwgar a gwelwn rai o'r dawnsiau mwyaf eiconig yn yr olygfa hon.

Y Cyfarwyddwr Artistig oedd Katy Sinnadurai a hithau'n ddawnswraig bale a choreograffydd proffesiynol. Ers iddi symud i Aberhonddu, mae Katy wedi cyfarwyddo a choreograffu cynyrchiadau cofiadwy lu. Dawnswyr bale proffesiynol oedd yn perfformio'r prif rolau ond dawnswyr ac actorion lleol oedd yn perfformio rolau'r plant a'r cymeriadau eraill. Côr lleol oedd yn canu Corws y Plu Eira i gyfeiliant Cerddorfa Siambr Cymru.

Ariannwyd y prosiect uchelgeisiol, cyffrous hwn o greu bale ei hun i Aberhonddu trwy gymorthdaliadau ac ymgyrch codi arian i gwrdd â'r costau. Roedd llwyddiant y cynhyrchiad yn amlwg o weld y theatr dan ei sang ar gyfer pob perfformiad [a dyma sbardunodd y penderfyniad i lwyfannu'r bale eto rhwng Rhagfyr 18fed – 21ain].

Cliciwch yma i archebu ar-lein